



# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad y cyfarfod:** 6 Gorffennaf 2021  
**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys  
**Swyddog Cyswllt:** Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb  
**Rhif Ffôn Cyswllt:** 01286 679708  
**Teitl yr Eitem:** Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Nid yw cael Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn angen statudol, ond mae'n un o'r Pwyntiau Gweithredu bu i ni eu cyflwyno yn ein Cynllun Cydraddoldeb Statudol 2020-24, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020.

Mae'r Polisi yn cymryd lle ein Polisi Cydraddoldeb / Cyfle Cyfartal a'n Polisi Mynediad sydd wedi dyddio'n fawr erbyn hyn.

### 3 CYFLWYNIAD

Pwrpas y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant yw gosod egwyddorion fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb gan roi dinasyddion Gwynedd yn ganolog i'n gwaith. Mae'n declyn sy'n rhoi arweiniad ar sut rydym i weithredu i sicrhau fod cymaint o bobl â phosib yn cael mynediad llawn at ein gwasanaethau ac yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein gwaith.

Yn unol a'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'r Polisi yn rhoi arweiniad ar sut i roi sylw dyledus i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, boed hynny'n erbyn defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o staff neu aelodau o'r gymuned ehangach.

Bwriedir hefyd i sicrhau ein bod yn gweithio i feithrin cyfleon cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hynny.

Tanlinellir cyfrifoldeb pob aelod staff tuag at sicrhau cydraddoldeb i bawb beth bynnag eu rôl.

Yn ogystal mae'r Polisi yn cyfarch ein cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd sy'n weithredol ers dechrau Ebrill 2021.

Rydym wedi ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth wneud y polisi fel sydd yn cael ei nodi yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn dangos y bydd y Polisi yn cael effaith positif ar y nodweddion gwarchoddedig i gyd.

#### 4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd yn cyd-fynd hefo'r Polisi yn defnyddio gwybodaeth o nifer o ymgynghoriadau blaenorol.

### **Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

#### **i) Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn fodlon na fyddai mabwysiadu'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad newydd yn creu ymrwymïadau gwariant newydd i'r Cyngor. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.

#### **i) Swyddog Priodoldeb**

Mae'r Polisi yma yn gosod allan cyfres o egwyddorion ymarferol i gefnogi y dyletswydd allweddol yma ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Cydnabyddir hefyd yn ychwanegol i hyn mewn meysydd penodol fod darpariaethau ac arweiniad manwl yn weithredol.